

**PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 9 RHAGFYR 2021**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT, DYDD IAU, 9 RHAGFYR 2021, AM 14:00**

Presennol

Y Cynghorydd G Thomas – Cadeirydd

N Clarke	DK Edwards	RM Granville	A Hussain
MJ Kearns	DRW Lewis	JC Radcliffe	JC Spanswick
RME Stirman	KJ Watts		

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

CA Webster a/ac RE Young

Swyddogion:

Rhodri Davies	Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu
Craig Flower	Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol
Mark Galvin	Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Dros dro
Brett Holdsworth	Swyddog Cynllunio Strategol
Rod Jones	Uwch Cyfreithiwr
Jonathan Parsons	Rheolwr Grŵp Datblygu
Andrew Rees	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Philip Thomas	Prif Swyddog Cynllunio
Leigh Tuck	Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth

542. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd N Clarke fuddiant personol yn yr agenda Eitem 8 P/21/926/RLX - 45 South Road, Porthcawl CF36 3DG ac agenda Eitem 9 P/21/814/FUL - 45A South Road, Porthcawl CF36 3DG fel aelod o Gyngor Tref Porthcawl ond nid yw'n cymryd unrhyw ran yn y broses gynllunio.

543. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 28 Hydref 2021, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

544. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd unrhyw siaradwyr cyhoeddus.

545. TAFLEN DIWYGIADAU

Nid oedd Taflen Ddiwygio.

546. CANLLAWIAU'R PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNIAD: Bod Crynodeb o ganllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel y'i nodir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, yn cael ei nodi.

547. P/21/669/FUL - CLWB TENIS PEN-Y-BONT AR OGWR, HEOL YR EGLWYS, ODDI AR HEOL MERTHYR MAWR, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 3AZ

- PENDERFYNIAD:** Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol –Cymunedau ac yn ddarostyngedig i'r amodau ychwanegol a ganlyn.
- Er gwaethaf y cynlluniau a gyflwynwyd, ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod manyleb fanwl gan gynnwys lliwiau'r deunyddiau sydd i'w defnyddio wrth godi'r Erodrom drwy hyn wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi cytuno'n ysgrifenedig arnynt. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt.
- Rheswm: Sicrhau bod y deunyddiau adeiladu arfaethedig yn briodol i'w defnyddio ar y datblygiad er mwyn gwella a diogelu amwynder gweledol yr ardal.
- Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd nes bod manylion y dull o ddiogelu'r Erodrom i'r ddaear wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi cytuno'n ysgrifenedig arnynt. Bydd y datblygiad yn cael ei wneud yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt.
- Rheswm: Er budd diogelwch.

**Cynnig**

Erodrom wedi'i llenwi ag aer newydd i orchuddio'r cyrtiau tenis presennol rhwng 1 Hydref a 1 Ebrill i alluogi rhaglen hyfforddi barhaus

548. P/21/926/RLX - 45 SOUTH ROAD, PORTHCAWL CF36 3DG

- PENDERFYNIAD:** Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol –Cymunedau.

**Cynnig**

Amrywio amodau 6, 7 & 8 o P/20/894/FUL i ganiatáu cyflwyno a chytuno ar fanylion cyn eu meddiannu'n fuddiol

549. P/21/814/FUL - 45A SOUTH ROAD, PORTHCAWL CF36 3DG

- PENDERFYNIAD:** Bod y cais uchod yn cael ei ganiatáu, yn ddarostyngedig i'r Amodau a geir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol –Cymunedau.

**Cynnig**

Cadw uned breswyl fel y'i hadeiladwyd (diwygiad i P/20/894/FUL)

550. APELIADAU

PENDERFYNIAD:

Bod yr Apeliadau canlynol a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf, fel y'u rhestrir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, yn cael eu nodi.

Rhif Cod

Pwnc Apêl

CAS-01379-M4T9Y9 (1931)

Cwmpo 33 o goed o wahanol rywogaethau a darparu coed newydd ar hyd ffiniau deheuol, gorllewinol a gogleddol (derbyniwyd adroddiad coed diwygiedig 3-8-21 yn diwygio nifer y coed i'w cwmpo o 30 i 33)

CAS-00516-Y9X4W2 (1932)

Estyniad ochr/cefn deulawr gyda balconi Juliette: 7 Bryn Bryntirion, Bryntirion

551. COFNOD HYFFORDDIANT

PENDERFYNIAD:

Nodwyd bod adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ar y Log Hyfforddi wedi'i ddiweddarau.

552. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:54